OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1140

## Gorchymyn Sir Ceredigion (Trefniadau Etholiadol) 2021

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Ceredigion (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**1**), daw'r Gorchymyn hwn i rym drennydd y diwrnod y'i gwneir.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(**2**).

(4) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir Ceredigion;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag a roddir iddynt yn Rhan 3 o **[**[F1]Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013**]**, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn ergl. 1(4) wedi eu hamnewid (25.6.2024) gan Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (asc 4), a. 25(1)(a), **Atod. 1 para. 20**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 13.10.2021 at ddibenion penodedig, gweler **ergl. 1(2)**

**I2** Ergl. 1 mewn grym ar 5.5.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **ergl. 1(3)**

### Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion

**2.**—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Ceredigion, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Ceredigion wedi ei rhannu'n 34 o wardiau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**2**) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 2 mewn grym ar 13.10.2021 at ddibenion penodedig, gweler **ergl. 1(2)**

**I4** Ergl. 2 mewn grym ar 5.5.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **ergl. 1(3)**

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Hydref 2021

(**3**) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Sir Ceredigion (Trefniadau Etholiadol) 2021.